Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008

## Canllawiau i Drefnwyr Angladdau

**Medi 2024**

# Cynnwys

Cyflwyniad 2

Diwygio Tystysgrifau Marwolaeth a'r System Archwilwyr Meddygol 3

Y Ddeddfwriaeth Berthnasol: Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008 7

Os oes gan yr ymgeisydd bryderon difrifol am achos y farwolaeth 8

Y ffurflenni statudol 9

Ffurflen Amlosgi 1 – Cais i amlosgi corff unigolyn sydd wedi marw 11

Ffurflen Amlosgi 3 – Cais i amlosgi baban marwanedig 15

Ffurflen Amlosgi 6 – Tystysgrif crwner 16

Ffurflen Amlosgi 9 – Tystysgrif o farw-enedigaeth 17

Ffurflen Amlosgi 11 – Tystysgrif ar ôl archwiliad post-mortem 18

Rhagor o Wybodaeth 19

Atodiad A – Dyfeisiau meddygol mewnblanadwy a allai achosi problemau wrth amlosgi gweddillion dynol 20

# Cyflwyniad

1. Mae’r canllawiau hyn ar gyfer **Trefnwyr Angladdau ac maent yn nodi sut y dylent gyflawni eu dyletswyddau o dan Reoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008.**

2. Mae cyfeiriadau at ‘rheoliadau 2008’ yn y ddogfen hon yn ymwneud â Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008 fel y’u diwygiwyd gan Reoliadau Amlosgi, Crwneriaid a Hysbysu Marwolaethau (Cymru a Lloegr) (Diwygiad) 2024 sydd ar gael drwy’r ddolen hon; Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008 (legislation.gov.uk).

3. Mae’r canllawiau hyn wedi cael eu diweddaru yng ngoleuni’r broses tystysgrifau marwolaeth statudol newydd a’r newidiadau cysylltiedig a ddaeth i rym ar y 9fed of Fedi 2024.

# Diwygio Tystysgrifau Marwolaeth a'r System Archwilwyr Meddygol

## Diwygio Tystysgrifau Marwolaeth: crynodeb o'r newidiadau

4. Daeth y broses tystysgrifau marwolaeth statudol newydd i rym ar y 9fed o Fedi 2024. O dan y system hon, mae'r holl farwolaethau yng Nghymru a Lloegr yn cael eu harchwilio'n annibynnol, naill ai gan grwner[1] perthnasol neu gan Archwilydd Meddygol (ME). Mae ME yn uwch feddyg sy'n craffu'n annibynnol ar bob marwolaeth nad ydynt yn gysylltiedig â chrwner.

5. **Mae un o'r newidiadau allweddol yn ymwneud â'r cymhwysedd i gwblhau'r Dystysgrif Feddygol o Achos y Farwolaeth (MCCD).** O dan y system newydd mewn achosion **nad** ydynt yn cynnwys crwner perthnasol, marw-enedigaethau, rhannau o'r corff nac ymchwil anatomegol, mae unrhyw ymarferydd meddygol cofrestredig sydd wedi ymweld â'r ymadawedig **yn ystod ei oes bellach yn gymwys i gwblhau'r MCCD** a chynnig achos marwolaeth hyd eithaf ei wybodaeth a'i gred. Mae'r newid hwn yn symleiddio'r meini prawf presenoldeb blaenorol.

6. **Mae newid arall yn ymwneud â gwybodaeth am ddyfeisiau meddygol mewnblanadwy:** Mae bodolaeth **dyfeisiau meddygol mewnblanadwy** bellach wedi'u cofnodi ar yr MCCD gan yr ymarferydd sy'n bresennol. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei throsglwyddo i ffurflen sy'n cyd-fynd â'r Dystysgrif ar gyfer Claddu neu Amlosgi, a elwir hefyd yn 'y ffurflen werdd', a gynhyrchir gan y cofrestrydd, fel y gellir ei rhannu a'i rhoi i'r awdurdod claddu neu'r amlosgfa – a fydd yn cael gwybod am bresenoldeb unrhyw ddyfeisiau mewnblanadwy mewn person ymadawedig.

7. **Mae newid allweddol arall yn ymwneud â rôl y ME:** Uwch ymarferydd meddygol yw ME sy'n **craffu'n annibynnol ar achos y farwolaeth a gynigir gan yr ymarferydd cofrestredig sy'n bresennol**. Cefnogir ME gan Swyddogion Archwilwyr Meddygol (MEO), ac mae eu gwaith craffu annibynnol yn cynnwys adolygu cofnodion meddygol, rhyngweithio â'r ymarferydd sy'n bresennol, a chynnig cyfle i gynrychiolwyr yr ymadawedig ofyn cwestiynau a mynegi unrhyw bryderon.

[1] Mae darpariaethau statudol fel arfer yn cyfeirio at 'uwch-grwner'. Fodd bynnag, mae darpariaeth statudol hefyd i grwneriaid ardal a chrwneriaid cynorthwyol arfer pwerau a chyflawni dyletswyddau uwch-grwner. Felly, er hwylustod, defnyddir y term cyffredinol 'crwner' drwy'r canllawiau hyn.

## Newidiadau i ddogfennau:

8. Nid yw'r diwygiad diweddar i dystysgrifau marwolaeth yn effeithio ar lawer o'r rheoliadau presennol sy'n llywodraethu amlosgiadau. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi:
    - Mae'r gofyniad am **dystysgrif feddygol (ffurflen Amlosgi 4)** wedi cael ei ddileu'n barhaol ar gyfer achosion yng Nghymru a Lloegr, ac mae **tystysgrif feddygol gadarnhau (ffurflen Amlosgi 5) wedi ei dileu yn barhaol.**
    - **Mae hawl yr ymgeisydd i archwilio'r dystysgrif feddygol (ffurflen Amlosgi 4)** cyn i'r **Canolwr Meddygol (MR) awdurdodi'r amlosgi wedi cael ei hepgor gan na fydd y ffurflen hon yn bodoli mwyach.** Fodd bynnag, fel yr esbonnir ym mharagraff 7 uchod, bydd ME yn cynnig cyfle i gynrychiolwyr yr ymadawedig ofyn cwestiynau a mynegi pryderon am achos y farwolaeth yn gynharach.
    - **Mae ffurflen Amlosgi 1 wedi cael ei diwygio** – gweler paragraff 36 isod.
    - **Mae meysydd ar bresenoldeb dyfeisiau meddygol mewnblanadwy wedi cael eu hychwanegu** at ffurflen Amlosgi 6 – gweler paragraff 64 isod.
    - **Ar gyfer marwolaethau yng ngweddill Ynysoedd Prydain (ac eithrio Cymru a Lloegr) bydd Rheoliadau 2008 fel yr oeddent cyn 2024 yn parhau i fod yn berthnasol, a bydd y ffurflenni a gyhoeddwyd yn 2018 yn cael eu defnyddio. Mae fersiwn o Reoliadau 2008 heb ddiwygiadau 2024 ar gael drwy ddilyn y ddolen hon:** https://www.gov.uk/government/collections/cremation-forms-and-guidance.

## Y broses newydd ar gyfer marwolaethau yng Nghymru a Lloegr

9. Bydd ymarferydd meddygol cofrestredig yn cynnig achos marwolaeth a fydd yn cael ei archwilio'n annibynnol gan ME ar ôl adolygu cofnodion meddygol perthnasol.

10. Bydd yr ME yn cynnig cyfle i bobl mewn profedigaeth ofyn cwestiynau a mynegi pryderon.

11. Unwaith y bydd yr ymarferydd meddygol cofrestredig a'r ME wedi gwneud eu datganiadau a bod achos y farwolaeth wedi'i gwblhau, ac os nad oes gofyniad i hysbysu'r crwner perthnasol, anfonir yr MCCD i swyddfa'r cofrestrydd; bydd yr hysbysiad hwn hefyd yn dechrau'r targed 5 diwrnod i gofrestru'r farwolaeth. Ni fydd yn bosibl cofrestru marwolaeth mewn achosion heb grwner heb i'r ME gymeradwyo'r MCCD.

12. Mae'r hysbysydd cofrestru, sef y person sy'n darparu'r wybodaeth am y person ymadawedig, ac eithrio achos y farwolaeth, i'r cofrestrydd, yn cael ei hysbysu ar yr un pryd fel y gall gysylltu â'r swyddfa gofrestru er mwyn cofrestru'r farwolaeth.

13. Mae'r hysbysydd yn cysylltu â swyddfa gofrestru a gwneir y trefniadau i gofrestru'r farwolaeth.

14. Pan ofynnir amdano, mae'r cofrestrydd yn cynhyrchu un neu fwy o gopïau ardystiedig o'r cofnod marwolaeth yn y gofrestr a elwir hefyd yn Dystysgrif Marwolaeth i gynrychiolydd yr ymadawedig ei phrynu.

15. Mae'r cofrestrydd yn cyhoeddi Tystysgrif ar gyfer Claddu neu Amlosgi (y 'ffurflen werdd') i hwyluso trefniadau'r angladd – fel rhan o'r broses hon byddant hefyd yn trosglwyddo gwybodaeth feddygol a ddarperir gan yr ymarferydd meddygol cofrestredig mewn perthynas â mewnblaniadau, ond nid oes ganddynt unrhyw rôl yn y broses o wneud unrhyw benderfyniadau sy'n ymwneud â'r data hwn.[2]

16. **Nodyn ar rôl Canolwyr Meddygol yn y system newydd:** Mae rhwymedigaeth statudol yn rheoliad 6 Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008 sy'n golygu bod yn rhaid i bob awdurdod amlosgi gael MR a chymaint o Ddirprwy MRs ag y bo'n briodol ym marn yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i gyfnod pontio tra bydd MEs yn cael eu cyflwyno. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd MEs a MRs. Byddwn yn rhoi rhybudd digonol ar gyfer unrhyw newidiadau er mwyn sicrhau bod pawb yn y system yn barod ar gyfer y prosesau newydd. Byddwn yn gwneud cyhoeddiad maes o law ynghylch pa newidiadau fydd eu hangen a byddwn yn diweddaru'r canllawiau hyn fel y bo'n briodol.

## Rôl y trefnydd angladdau

17. Fel trefnydd angladdau, dylech sicrhau bod **yr holl ffurflenni sy'n angenrheidiol** ar gyfer amlosgi person ymadawedig yn **cael eu llenwi'n gywir ac mor gyflym â phosibl gan yr ymgeisydd.**.[3]

18. **Dylech sicrhau bod ymgeiswyr yn ymwybodol o'r canllawiau hyn yn ogystal â'r canllawiau i ymgeiswyr**, pan fo'n berthnasol, a sut y gallant gael gafael arnynt. Mae'r holl ganllawiau perthnasol ar gael yn https://www.gov.uk/government/collections/cremation-forms-and-guidance.

19. **Ni ddylai trefnwyr angladd <u>lenwi na/neu lofnodi'r</u> ffurflen ar ran yr ymgeisydd.** Rhaid i'r ymgeisydd lenwi a llofnodi'r ffurflen gais, gyda chefnogaeth y trefnydd angladdau.

20. **Rhaid i drefnwyr angladdau roi gwybod i'r ymgeisydd am ganlyniadau gwneud datganiad ffug.**

---

[2] Dylid codi unrhyw ymholiadau am y wybodaeth ar y ffurflen gyda naill ai'r ymarferydd meddygol cofrestredig neu ME.

[3] Fel arfer, dylai'r ymgeisydd am amlosgi fod yn berthynas agos neu'n ysgutor.

21. Wrth gyfathrebu â phobl mewn profedigaeth, rydym yn awgrymu’n gryf bod trefnwyr angladdau yn ystyriol o sensitifrwydd o ran iaith, ac yn osgoi defnyddio termau fel ‘gwaredu’ gan y gallai hyn achosi dryswch a/neu drallod.

22. Yn bwysig, **dylech gadw mewn cysylltiad â’r holl bartïon sy’n gysylltiedig â’r broses**.

# Y Ddeddfwriaeth Berthnasol: Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008

23. Mae’r ffurflenni y mae’n rhaid eu llenwi er mwyn gallu amlosgi ar gael yn Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008 (Rheoliadau 2008).[4] Gellir lawrlwytho’r ffurflenni hyn oddi ar ein gwefan: www.gov.uk/government/collections/cremation-forms-and-guidance

24. **Ar ôl 9 Medi 2024, rhaid i geisiadau amlosgi gael eu gwneud gan ddefnyddio'r ffurflenni a gyflwynwyd drwy Reoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) (Diwygiad) 2017 a Rheoliadau Amlosgi, Crwneriaid a Hysbysiad o Farwolaethau (Cymru a Lloegr) (Diwygiad) 2024**. Gellir lawrlwytho'r ffurflenni hyn o'n gwefan yn: www.gov.uk/government/collections/cremation-forms-and-guidance

25. **Dogfennau Cymraeg:** Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi statws swyddogol i’r Gymraeg yng Nghymru, yn gwneud darpariaeth ar gyfer creu safonau ymddygiad mewn perthynas â defnyddio’r Gymraeg ac yn gosod dyletswyddau ar gyrff penodol i gydymffurfio â’r safonau hynny. Mae Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) (Diwygiad) 2017 yn gwneud darpariaeth ar gyfer darparu ffurflenni amlosgi yn ddwyieithog. Gellir lawrlwytho’r ffurflenni hyn oddi ar ein gwefan: https://www.gov.uk/government/collections/ffurflenni-a-chanllawiau-amlosgi.cy.

26. Mae gwybodaeth am sut i gynorthwyo ymgeiswyr gyda phob un o’r ffurflenni hyn ar gael isod.

[4] Daeth Rheoliadau 2008 i rym ar 1 Ionawr 2009 gan foderneiddio a chyfuno’r holl reoliadau blaenorol, gan ddisodli Rheoliadau Amlosgi 1930 (fel y’u diwygiwyd). Cafodd Rheoliadau 2008 eu diwygio yn 2016, 2017, 2022 ac eto yn 2024.

# Os oes gan yr ymgeisydd bryderon difrifol am achos y farwolaeth

27. Er y bydd cyfleoedd i’r ymgeisydd fynegi pryderon am achos y farwolaeth cyn cyflwyno ffurflen Amlosgi 1, efallai y bydd yr ymgeisydd yn dymuno codi materion sy’n peri pryder gyda crwner perthnasol. Yn yr amgylchiadau hyn ni ellir amlosgi hyd nes y caiff y mater ei ddatrys; cadarnhad ysgrifenedig gan yr ymgeisydd sy'n dweud ei fod yn fodlon bod y mater wedi'i ddatrys, neu dylai cyfathrebiad gan swyddfa'r crwner perthnasol fod yn ddigon o dystiolaeth. Bydd angen i chi fod mewn cysylltiad agos â’r amlosgfa a swyddfa’r crwner perthnasol nes bydd y sefyllfa wedi’i datrys.

# Y ffurflenni statudol

28. Er mwyn i amlosgi ddigwydd, rhaid llenwi ffurflenni perthnasol:[5]
    - Ar gyfer amlosgi person ymadawedig neu ar ôl archwiliad anatomegol, ffurflen Amlosgi 1;
    - Ar gyfer amlosgi rhannau o'r corff lle mae'r ymadawedig eisoes naill ai wedi'i gladdu neu wedi'i amlosgi, ffurflen Amlosgi 2.
    - Ar gyfer amlosgi babi marwanedig, ffurflen Amlosgi 3;

29. Eich rôl chi, fel trefnydd angladdau, yw helpu i sicrhau bod y ffurflenni cywir yn cael eu llenwi gyda'r wybodaeth gywir.

30. **Mae'n bwysig nad yw geiriad y ffurflenni yn cael ei newid.** Cyfarwyddir MRs i wrthod unrhyw ffurflenni nad ydynt yn dilyn y geiriad statudol neu lle gwnaed newidiadau sylweddol i fformat y ffurflenni, boed yn ddigidol neu fel arall. Gellir lawrlwytho'r ffurflenni hyn oddi ar ein gwefan: www.gov.uk/government/collections/cremation-forms-and-guidance.

31. Mae 11 o ffurflenni statudol wedi'u nodi yn y Rheoliadau, a gall 6 ohonynt fod yn berthnasol i drefnwyr angladdau. Eglurir y rhain ar y tudalennau canlynol.

## Pasio'r ffurflenni ymlaen

32. Gellir trosglwyddo ffurflenni'n electronig neu fel dogfennau papur. Pan fo ffurflen yn gofyn am lofnod a'i bod yn cael ei derbyn yn electronig, rhaid i'r llofnod gydymffurfio â'r gofynion yn adran 7(2) o Ddeddf Cyfathrebiadau Electronig 2000.

33. Mae trosglwyddiad electronig o ffurflen bapur wedi'i llofnodi sydd wedi'i derbyn fel atodiad e-bost o sgan neu lun yn dderbyniol. Nid oes yn rhaid i'r amlosgfa dderbyn y ffurflen bapur wedi'i llofnodi pan fydd trosglwyddiad electronig y ffurflen honno wedi'i dderbyn.

34. Lle nad oes llofnod wedi'i ysgrifennu â llaw wedi'i roi yn y lle gwag yn y ffurflen sydd wedi'i chadw ar gyfer y llofnod, dylid teipio enw'r llofnodwr i mewn. Mae enghreifftiau o'r hyn a allai fod yn llofnod electronig yn cynnwys
    - Trawsyriad o gyfrif e-bost sy'n perthyn i'r llofnodwr; neu
    - Copi wedi'i sganio o lofnod y llofnodwr wedi'i roi yn adran llofnod y ffurflen; neu

[5] Fel arfer, bydd yr ymgeisydd am amlosgi yn berthynas agos neu'n ysgutor a dylid rhoi rhesymau ar y ffurflen yn egluro pam nad yw unrhyw berson sy'n gwneud y cais yn berthynas agos nac yn ysgutor.

- Llofnod y llofnodwr wedi ei osod yn uniongyrchol ar y ffurflen drwy sgrin gyffwrdd; neu
- Defnyddio gwasanaeth dilysu llofnodion electronig.

35. **Mae’n drosedd dan Ddeddf Amlosgi 1902 i wneud datganiad ffug yn fwriadol er mwyn cael amlosgiad.** Dylid rhoi gwybod i’r heddlu am unrhyw bryderon am ddatganiadau ffug er mwyn ymchwilio iddynt gan fod y rhain yn faterion troseddol. Ni all y MR na’r Weinyddiaeth Gyfiawnder ymchwilio i faterion troseddol.

# Ffurflen Amlosgi 1 – Cais i amlosgi corff unigolyn sydd wedi marw

36. Rhaid i'r ymgeisydd lenwi a llofnodi'r ffurflen hon, gyda chefnogaeth y trefnydd angladdau, os defnyddir un, ym mhob achos lle mae'r ymadawedig i gael ei amlosgi. **Ni ddylai darparwyr gwasanaethau angladd lenwi na llofnodi'r ffurflen ar ran yr ymgeisydd.**

37. Mae'r ffurflen Amlosgi 1 ddiwygiedig a gyhoeddwyd yn 2024 yn disodli'r fersiwn a gyhoeddwyd yn 2018. Mae wedi cael ei diweddaru i ystyried y diwygiadau i dystysgrifau marwolaeth.

38. Y prif newidiadau i'r ffurflen:
    - Lle i roi cyfeiriadau e-bost y trefnydd angladdau, pan y'u defnyddir, a'r ymarferydd meddygol cofrestredig, lle y bo'n hysbys, a ymwelodd â'r ymadawedig;
    - datganiad diogelu data;
    - datganiad yn cadarnhau bod yr holl ddogfennau perthnasol wedi'u darparu;
    - cwestiwn diwygiedig ynghylch presenoldeb dyfeisiau meddygol mewnblanadwy; ac
    - adran newydd sy'n ymwneud â'r gwaith o waredu unrhyw fetelau.

39. Fel arfer, dylai'r ymgeisydd am amlosgi fod yn berthynas agos neu'n ysgutor. Dylid rhoi rhesymau yn egluro pam nad yw unrhyw berson sy'n gwneud y cais yn berthynas agos nac yn ysgutor.

40. **Rhaid ateb yr holl gwestiynau ar y ffurflen hon a rhaid llenwi pob rhan o'r ffurflen cyn ei throsglwyddo i'r amlosgfa.** Dylech helpu ymgeiswyr i ddarparu unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol.

41. **Dylech sicrhau bod ffurflen Amlosgi 1 yn cael ei hanfon at yr amlosgfa cyn gynted â phosibl** cyn dyddiad yr angladd i sicrhau nad yw'r angladd yn cael ei ohirio.

## Rhan 1: Manylion yr amlosgfa

42. Gofynnir i'r ymgeisydd gadarnhau drwy dicio blwch ar y ffurflen bod yr holl ddogfennau perthnasol wedi cael eu darparu i'r amlosgfa. Efallai yr hoffech helpu'r ymgeisydd drwy edrych ar y tabl isod ynghylch y dogfennau perthnasol. Efallai fod y 'ffurflen werdd' wedi mynd yn syth i'r amlosgfa, felly dylech holi'r ymgeisydd.

43. Dylid cyflwyno'r ffurflenni canlynol gyda Ffurflen Amlosgi 1:

| **Math o achos** | **Ffurflenni** |
|---|---|
| Mewn achosion heb grwner | Y Dystysgrif ar gyfer Claddu neu Amlosgi (‘y ffurflen werdd’). |
| Mewn achosion crwner | Ffurflen Amlosgi 6. (Sylwch nad oes angen y ffurflen werdd mewn achosion sy’n ymwneud â’r crwner.) |
| Mewn amlosgiadau yn dilyn archwiliad anatomegol | Ffurflen Amlosgi 7 a’r ffurflen werdd. |

44. Ar gyfer marwolaeth a ddigwyddodd yn yr Alban, dylai’r canlynol fynd gyda ffurflen Amlosgi 1 neu ffurflen gyfatebol:
    - **Naill ai** Ffurflen 14 – Tystysgrif Cofrestru Marwolaeth **neu** Ffurflen E1 (a gyhoeddwyd os oes procuradur ffisgal wedi bod yn gysylltiedig ac wedi rhyddhau’r gweddillion ar gyfer amlosgi); **a**
    - dylid cael Tystysgrif Dim Atebolrwydd i Gofrestru hefyd gan y cofrestrydd yng Nghymru neu Loegr, lle bwriedir amlosgi’r corff yn ei ardal, a rhoi gwybod i grwner perthnasol yr ardal lle bydd yr amlosgi’n digwydd.

45. Ar gyfer marwolaeth a ddigwyddodd yng Ngogledd Iwerddon, dylai’r canlynol fynd gyda ffurflen Amlosgi 1 neu ffurflen gyfatebol:
    - **Naill ai** Ffurflen Amlosgfa Gogledd Iwerddon B (Y Dystysgrif Feddygol) **a** Ffurflen C (sy’n dilysu’r wybodaeth yn Ffurflen B) – rhaid i feddyg yng Ngogledd Iwerddon lenwi’r ffurflenni hyn – **neu** Ffurflen 20a (Awdurdod y crwner ar gyfer Amlosgi); **a**
    - Rhaid i'r crwner perthnasol ddarparu Tystysgrif Cofrestru Marwolaeth (sy’n cyfateb i’r Ffurflen Werdd) a Ffurflen 18 (Tystysgrif Crwner perthnasol ar gyfer Symud Corff o Ogledd Iwerddon); **a**
    - Ffurflen Cyngor Gogledd Iwerddon, sy’n rhoi gwybodaeth ynghylch a oes mewnblaniad peryglus yn bresennol ac a yw wedi cael ei dynnu. Rhaid i hyn gael ei lenwi gan y meddyg sy’n llenwi Ffurflen B neu gan y crwner perthnasol.

46. Ar gyfer marwolaethau dramor, edrychwch ar y canllawiau sydd ar gael yn https://www.gov.uk/government/collections/death-abroad-bereavement-packs

## Rhan 3: Manylion yr unigolyn sydd wedi marw

47. Mae **Cwestiwn 3** yn gofyn am unrhyw ddyfeisiau meddygol mewnblanadwy a allai fod yn beryglus yn ystod amlosgi, er enghraifft rheolydd calon, dyfais ymbelydrol neu system hoelion “Fixion” i drwsio esgyrn. Gall rhai dyfeisiau meddygol mewnblanadwy achosi niwed i beiriannau neu beri risg i fywyd dynol. Felly, mae’n hanfodol sicrhau bod unrhyw wybodaeth am ddyfeisiau meddygol mewnblanadwy, a’u tynnu, yn cael ei chynnwys ar ffurflen Amlosgi 1, gan yr ymgeisydd cyn anfon y ffurflen at yr amlosgfa. Ar ôl trafod gyda’r ymgeisydd, efallai y byddwch hefyd yn gallu darparu gwybodaeth i’r amlosgfa neu gadarnhau’n ysgrifenedig bod y ddyfais feddygol mewnblanadwy wedi

cael ei thynnu. Wrth gasglu'r ymadawedig o gorffdy'r ysbyty, rhoddir papurau rhyddhau o'r ysbyty iddynt. Wrth adolygu'r papurau, os bydd y trefnydd angladdau yn darganfod bod dyfais feddygol mewnblanadwy yn bresennol a p'un a yw wedi cael ei thynnu neu beidio, rhaid iddo hysbysu'r amlosgfa am hyn yn ysgrifenedig; efallai y bydd oedi os na hysbysir yr amlosgfa. Mae rhestr o ddyfeisiau meddygol mewnblanadwy a allai achosi problemau wrth amlosgi ar gael yn Atodiad A, ond cofiwch nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr. Mae angen y wybodaeth hon oherwydd bydd angen i'r MR, sy'n gweld y ffurflen hon ar ôl ei llenwi, wirio a chymharu'r wybodaeth a ddarparwyd â'r wybodaeth a ddarparwyd ar y ffurflen werdd, a gyhoeddwyd gan y cofrestrydd, neu ar ffurflen Amlosgi 6.

## Rhan 4: Gwaredu llwch

48. Mae Rhan 4 y ffurflen yn ymdrin â dymuniadau ymgeiswyr mewn perthynas â llwch y person ymadawedig ar ôl yr amlosgi. Rydym wedi cynghori awdurdodau amlosgi y dylai trefnwyr angladdau feddu ar ddealltwriaeth fanwl o'r gwasanaethau a ddarperir gan yr amlosgfa. **Dylech sicrhau bod gan yr ymgeisydd fanylion cyswllt ar gyfer yr amlosgfa a bod gennych gopïau o unrhyw wybodaeth a gynhyrchwyd gan yr amlosgfa i'w chyflwyno i deuluoedd a'u trafod gyda hwy.**

49. Nid oes raid i amlosgfeydd dderbyn cais sy'n cynnwys cyfarwyddiadau na allant eu cyflawni. Dylai Trefnwyr Angladdau felly helpu ymgeiswyr i ddarparu cyfarwyddiadau ymarferol ar gyfer yr hyn a ddylai ddigwydd i'r llwch. Os ydych yn ansicr, dylech chi neu'r ymgeisydd drafod y cyfarwyddiadau gyda'r amlosgfa cyn cyflwyno'r cais. Os nad yw amlosgfa'n gallu derbyn cais oherwydd nad yw'n gallu cyflawni'r cyfarwyddiadau ar gyfer yr hyn a ddylai ddigwydd i'r llwch, gellir darparu cyfarwyddiadau ar wahân yn ysgrifenedig heb fod angen cyflwyno cais newydd.

50. Rydym yn cydnabod, wrth drefnu amlosgi, efallai na fydd yr ymgeisydd yn gallu penderfynu eto beth a ddymuna i ddigwydd i'r llwch. Nid oes angen gohirio cais am amlosgi tra bo'r ymgeisydd yn penderfynu beth ddylai ddigwydd i'r llwch ac, o dan yr amgylchiadau hyn, dylai'r ymgeisydd ddewis opsiwn 3 *Llwch i'w gadw yn aros am eich penderfyniad*. **Dylai'r ymgeisydd ddarparu cyfnod neu ddyddiad ar gyfer cysylltu â'r amlosgfa i roi rhagor o gyfarwyddiadau.** Mae'n bwysig bod yr ymgeisydd yn cael gwybod bod angen penderfyniad ynghylch beth sy'n digwydd i'r llwch ac na fydd yr amlosgfa'n storio llwch am gyfnod amhenodol; efallai y bydd rhai yn codi tâl am storio. Mae'n bwysig hefyd rhoi gwybod i'r ymgeisydd, os ydynt yn dymuno i'r llwch gael ei gladdu mewn bedd/plot, y bydd angen iddynt gael awdurdod gan ddeiliad presennol y weithred ar gyfer y bedd/plot. Os yw deiliad y weithred yw'r ymadawedig, bydd yr awdurdod amlosgi yn cynghori ynghylch trosglwyddo'r hawliau i ddeiliad newydd y weithred, y gellir gofyn am ei ganiatâd wedyn.

## Gwaredu metelau

51. Yn ystod bywyd, bydd angen i rai unigolion gael llawdriniaeth i osod cymal newydd neu osod metel i mewn i helpu i drwsio asgwrn. Ar ôl i berson gael ei amlosgi, bydd y metelau hyn, ynghyd â metelau o'r arch, yn aros yn y lludw.

52. Ar waelod Rhan 4 o ffurflen Amlosgi 1 mae adran newydd sy'n gofyn a fyddai'r ymgeisydd yn hoffi i unrhyw weddillion metel gael eu dychwelyd ar ôl yr amlosgi. Os oes gan yr ymgeisydd yr awdurdod, dylai dicio'r blwch os yw'n dymuno i'r metel hwn gael ei ddychwelyd. I weld a oes gennych chi'r hawl i ofyn am ddychwelyd unrhyw fetelau, edrychwch ar Atodiad A yn y Canllawiau i awdurdodau amlosgi a chanllawiau rheolwyr amlosgfeydd, sydd ar gael yma: Rheolwyr amlosgfeydd: canllawiau ar reoliadau a ffurflenni amlosgi - GOV.UK (www.gov.uk). Fel arall, gall yr amlosgfa ailgylchu metelau. Bydd gan bob amlosgfa eu harferion eu hunain a byddant yn gallu rhoi cyngor i chi ar y broses hon.

53. **Dylech sicrhau bod yr ymgeisydd yn ymwybodol o'r angen i wneud penderfyniad, lle bo hynny'n berthnasol, ynghylch a fyddai'n hoffi i unrhyw fetel gael ei ddychwelyd.**

## Rhan 5: Adfer llwch

54. Dylech sicrhau bod yr ymgeisydd yn ymwybodol bod risg na fydd llwch yn cael ei adfer ar ôl yr amlosgi. Mae'r sefyllfaoedd hyn yn brin a lle maent yn digwydd maent fel arfer yn ymwneud ag amlosgi babanod bach iawn neu farw-anedig neu amlosgi rhai rhannau o'r corff. Gofynnir i bob ymgeisydd gadarnhau eu bod yn deall y risg hon. Os nad ydych yn siŵr, dylech siarad â'r amlosgfa am y camau y gallant eu cymryd i sicrhau bod cymaint â phosibl o'r llwch yn cael ei adfer.

## Rhan 6: Datganiad gwirionedd

55. **Dim ond yr ymgeisydd** am amlosgi ddylai lenwi a llofnodi'r ffurflen hon. Rhaid i ymgeiswyr fod yn ymwybodol ei bod yn drosedd gwneud datganiad anwir yn fwriadol i sicrhau amlosgi gweddillion dynol.

# Ffurflen Amlosgi 3 – Cais i amlosgi baban marwanedig

56. Mae ffurflen Amlosgi 3 a gyhoeddwyd yn 2018 yn disodli fersiwn o'r ffurflen a gyhoeddwyd yn 2009.

57. **Rhaid i'r ymgeisydd lenwi a llofnodi'r ffurflen hon**, sydd fel arfer yn un o rieni babi marwanedig, gyda chefnogaeth darparwr y gwasanaeth angladdau, mewn achosion lle bydd babi marwanedig yn cael ei amlosgi. Os bydd y rhieni'n gofyn am hynny, gall y swyddog profedigaeth yn yr ysbyty lenwi ffurflen Amlosgi 3.

58. Diffinnir marw-enedigaeth fel babi nad yw'n fyw ar ôl 24 wythnos lawn o feichiogrwydd, os yw'n llai na 24 wythnos nid yw rheoliadau 2008 yn berthnasol, ond er hynny gall yr amlosgfa ymgymryd â'r amlosgi.

59. **Dylech sicrhau bod y ffurflen hon naill ai'n cael ei hategu gan ffurflen Amlosgi 9 (tystysgrif marw-enedigaeth) neu gan ddatganiad a roddir gan berson sy'n gallu rhoi gwybodaeth am y baban marwanedig (gweler rheoliad 20(2)).** Lle bu marw-enedigaeth y tu allan i Gymru a Lloegr, gellir rhoi ffurflen sy'n cyfateb yn fras i ffurflen Amlosgi 9, os yw'n cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol ar ffurflen Amlosgi 9.

60. Mae'r ystyriaethau a nodir ym mharagraffau 48 i 50 a 54 uchod sy'n cyfeirio at ddymuniadau'r ymgeisydd mewn perthynas â llwch y person ymadawedig ar ôl yr amlosgi ac adfer llwch yn berthnasol i ffurflen Amlosgi 3.

# Ffurflen Amlosgi 6 – Tystysgrif crwner

61. Mae ffurflen Amlosgi 6 a gyhoeddwyd yn 2024 yn disodli fersiwn o'r ffurflen a gyhoeddwyd yn 2022.

62. Mae'r crwner perthnasol yn llenwi'r ffurflen hon pan fydd achos wedi'i gyfeirio atynt. **Os rhoddir y ffurflen hon i chi, rhaid i chi ei rhoi i'r amlosgfa.**

63. Cofiwch:
    - Mae lle yng nghwestiwn 1 Rhan 1 i gofnodi achos y farwolaeth. Ni ddylid gadael hwn yn wag (hyd yn oed os nad yw'r achos wedi'i ganfod); a
    - dylai'r crwner perthnasol lofnodi a dyddio'r ffurflen.

64. Os oes gan y crwner perthnasol wybodaeth am ddyfeisiau meddygol mewnblanadwy sy'n bresennol yn y corff o ganlyniad i archwilio nodiadau meddygol neu ar ôl post-mortem, byddant yn darparu hyn ar y ffurflen.

65. Dylid dychwelyd unrhyw ffurflenni anghyflawn i swyddfa y crwner perthnasol i'w llenwi.

# Ffurflen Amlosgi 9 – Tystysgrif o farw-enedigaeth

66. Mae ffurflen Amlosgi 9 a gyhoeddwyd yn 2018 yn disodli fersiwn o'r ffurflen a gyhoeddwyd yn 2009.

67. Rhaid i'r ffurflen hon gael ei llenwi a'i llofnodi gan fydwraig gofrestredig neu gan ymarferydd meddygol cofrestredig ym mhob achos lle bydd baban marwanedig yn cael ei amlosgi. Mae diffiniad ar gael drwy ddilyn y ddolen hon: Marw-enedigaeth – GIG (www.nhs.uk). **Os rhoddir y ffurflen hon i chi, rhaid i chi ei rhoi i'r amlosgfa.**

68. Mae'r ffurflen hon yn cyd-fynd â'r 'Cais i amlosgi babi marwanedig' (ffurflen Amlosgi 3) a'r ddogfen gofrestru briodol.

69. Os yw'r MR yn fodlon y gellir amlosgi, byddant yn ei awdurdodi gyda ffurflen Amlosgi 13.

# Ffurflen Amlosgi 11 – Tystysgrif ar ôl archwiliad post-mortem

70. Mae ffurflen Amlosgi 11 a gyhoeddwyd yn 2018 yn disodli fersiwn o'r ffurflen a gyhoeddwyd yn 2009.

71. O dan y system newydd, rydym yn dileu'r ddarpariaeth sy'n caniatáu i MRs wneud cais am bost-mortem ar gyfer pob achos yng Nghymru a Lloegr. **Yr unig achosion lle bydd MR yn cadw'r pŵer i wneud cais am bost-mortem yw lle digwyddodd marwolaeth yn yr Alban, Gogledd Iwerddon, Ynys Manaw neu Ynysoedd y Sianel, ond lle mae'r ymgeisydd yn dymuno i'r amlosgi ddigwydd yng Nghymru a Lloegr.** Yn yr achos hwn, dylai'r ffurflen hon gael ei defnyddio gan berson sy'n cyflawni'r post-mortem o dan Adran 24 Rheoliadau 2008.

72. Yn yr achosion a ddisgrifir uchod ym mharagraff 71, os yw'r MR o'r farn nad yw ffaith ac achos y farwolaeth wedi'u canfod yn bendant, gall wrthod awdurdodi'r amlosgi. Fodd bynnag, os yw'r teulu'n dal i ddymuno amlosgi'r corff, yna byddai angen iddynt benderfynu a fyddent yn fodlon talu am archwiliad post-mortem (os ydynt yn gallu) neu ofyn i'r awdurdod amlosgi a fyddent yn fodlon talu.

73. Mae angen i awdurdodau amlosgi benderfynu pwy ddylai dalu am unrhyw archwiliad post-mortem a orchmynnwyd gan y MR o dan Reoliad 24 Rheoliadau 2008. Bydd angen iddynt hefyd sicrhau bod holl ddarpariaethau perthnasol Deddf Meinweoedd Dynol 2004 yn cael eu bodloni. Mae'r rhain yn cynnwys unrhyw ganiatâd angenrheidiol i'r archwiliad post-mortem gael ei gynnal gan y person mwyaf priodol (gweler cod ymarfer HTA Post Mortem am arweiniad ar bwy all roi caniatâd yma https://www.hta.gov.uk/) a all fod yn ymgeisydd neu'n aelod arall o'r teulu, bod yr archwiliad post-mortem yn cael ei wneud gan batholegydd dan awdurdod trwydded a roddwyd at y diben hwnnw gan yr Awdurdod Meinweoedd Dynol, a bod y man lle mae'r archwiliad post-mortem i'w gynnal hefyd wedi'i drwyddedu'n briodol. **Efallai mai eich rôl chi, fel trefnydd angladdau, fydd helpu i gael y caniatâd angenrheidiol.**

# Rhagor o Wybodaeth

74. Nid yw'r canllawiau hyn yn hollgynhwysol a bydd achosion unigryw yn codi pan fydd angen cymorth arnoch. Os oes gennych chi ragor o ymholiadau neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch chi nad yw'r ddogfen hon yn ei chynnwys, cysylltwch â'r tîm Polisi Claddu ac Amlosgi yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn BurialsandCremation@justice.gov.uk.

# Atodiad A – Dyfeisiau meddygol mewnblanadwy a allai achosi problemau wrth amlosgi gweddillion dynol

**Mae mewnblaniadau a allai achosi problemau yn ystod amlosgi yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:**

- Rheolyddion calon;
- Diffibrilwyr Cardiaidd a Fewnblannwyd (ICDs);
- Dyfeisiau therapi ailgydamseru cardiaidd (CRTDs) Recordyddion dolen mewnblanadwy;
- Dyfeisiau cymorth fentriglaidd (VADs): Dyfeisiau cymorth fentriglaidd chwith (ADV), dyfeisiau cymorth fentriglaidd dde (RVADs), neu ddyfeisiau cymorth deufenriglaidd BiVADs);
- Pympiau cyffuriau mewnblanadwy gan gynnwys pympiau mewnweiniol;
- Niwrosymbylwyr (gan gynnwys ar gyfer poen a Symbyliad Trydanol Gweithredol) Symbylwyr twf esgyrn;
- Hoelion “Fixion” i drwsio esgyrn;
- Unrhyw fewnblaniad arall sy’n defnyddio batri neu sy’n cynnwys pwysedd;
- Mewnblaniadau ymbelydrol a ddefnyddir i drin tiwmorau, fel gwifrau metel, hadau neu diwbiau; a
- Thriniaeth radiofferylliaeth (drwy bigiad)

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2024**

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon ewch i, nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais i BurialsandCremation@justice.gov.uk